**Y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig ARD 14-02 (p5)**

**Dyddiad:** Dydd Mercher 30 Hydref

**YMATEB GAN GYNGOR CEFN GWLAD CYMRU**

*Cyngor Cefn Gwlad Cymru yw cynghorwr statudol y Llywodraeth ar gynnal harddwch naturiol, bywyd gwyllt a'r cyfle i fwynhau'r wlad a dyfroedd ei glannau. Gydag English Nature a Scottish Natural Heritage, mae CCGC yn cyflawni ei gyfrifoldebau statudol ar gyfer Prydain Fawr ac yn rhyngwladol drwy'r Cydbwyllgor Gwarchod Natur.*

## 1. Cefndir

Mae CCGC wedi bod yn gweithredu cynlluniau amaeth-amgylcheddol ers 1992 yn dilyn i sefydlu Tir Cymen, y cynllun amaeth-amgylcheddol arbrofol ar gyfer ffermydd yn eu cyfanrwydd, a chynllun sy'n dal i weithredu yn Abertawe, Dinefwr a Meirionnydd. Cymerodd CCGC ran hefyd yn y gweithgor ymgynghorol i benderfynu ar ffurf y cynllun Tir Gofal, ac mae wedi gweithredu'r cynllun ers ei lansiad ym Mawrth 1999 gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar y pryd. Yn awr, mae CCGC yn gweithredu Tir Gofal ar ran Llywodraeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithio mewn partneriaeth ag Uned Gartograffig ARAD, Parc Cenedlaethol Eryri, Cadw, Cofebau Hanesyddol Cymru, Ymddiriedolaethau Archaeolegol Cymru a'r Comisiwn Coedwigaeth.

Ymgorfforwyd Tir Gofal i Gynllun Datblygu Cymru Wledig yn Rhagfyr 2000. Yn wahanol i gynlluniau cyffelyb a geir mewn mannau eraill yn y DU, mae Tir Gofal yn gweithredu drwy ymagweddu'n integredig o ran y defnydd o'r Rheoliad Datblygu Gwledig, gan gyfuno amaeth-amgylchedd, hyfforddiant, coedwigaeth a mesurau Erthygl 33 mewn un pecyn sengl cydlynol sy'n cael ei gyflwyno i <u>fferm gyfan</u>. Gweithreda CCGC y cynllun drwy ddwy ar bymtheg o swyddfeydd ar draws Cymru, er mwyn sicrhau bod ffermwyr yn medru derbyn cyngor gan staff lleol, sydd i gyd yn medru cael gafael hwylus ar gyngor technegol mwy manwl ynghylch cadwraeth natur, y tirwedd a mynediad cyhoeddus i gefn gwlad.

Fel y rhestrir yn y Cynllun Datblygu Gwledig, mae'r amcanion ar gyfer Tir Gofal fel a ganlyn:

- bod o fudd i fywyd gwyllt ar dir amaethyddol drwy hyrwyddo rheolaeth bositif ar y cynefinoedd o fywyd gwyllt sydd yno eisoes a thrwy annog adfer a gwella cynefinoedd;
- diogelu tirweddau gwledig nodweddiadol a hyrwyddo rheolaeth ac adferiad nodweddion tirweddol nodweddiadol;
- diogelu'r amgylchedd hanesyddol, gan gynnwys tirweddau a nodweddion hanesyddol, drwy annog arferion amaethu sy'n gydnaws â'u cadwraeth a'u gwelliant;
- darparu mynediad cyhoeddus i gefn gwlad.

Ar gais Llywodraeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru, cafodd pob cais am Dir Gofal eu graddio yn unol â system a luniwyd i sicrhau bod y rhai a oedd o'r gwerth amgylcheddol mwyaf yn cael eu dewis. Yn ystod blwyddyn gyntaf y cynllun, cafodd y ceisiadau eu gosod yn nhrefn eu graddfa gyda'r holl rai a oedd yn uwch na'r 700fed lleoliad yn derbyn ymweliad gan swyddog prosiect. Tueddai'r broses o drefnu yn ôl graddfa i godi'r gost gyfartalog am bob cytundeb yn ogystal â gostwng graddfa llwyddiant ymhlith y ffermydd o faint canolig. O ganlyniad, rhoddwyd system 'drothwy' yn ei lle ar gyfer yr ail a'r trydedd cais, a chaniatâi

hynny i'r holl ffermydd gyda sgôr o dros 100 o bwyntiau lwyddo i gael ymweliad gan swyddog prosiect.

Mae cyfanswm y ceisiadau a dderbyniwyd hyd yma ychydig dros 3450, ac allan o'r rheini bernid bod 2460 yn llwyddiannus (gweler Tabl 1). Gostyngodd y nifer o geisiadau yn ystod yr ail rownd, ond cynyddodd yn y nesaf – yn ôl pob tebyg gan fod y ffermwyr wedi ymateb i'r graddfeydd llwyddiant newidiol a brofodd ymgeiswyr blaenorol. Roedd ffermydd canolig eu maint (50-200 hectar) yn cyfrif am 34% o'r ceisiadau llwyddiannus yn y rownd gyntaf, ond cododd y ffigur hwn i 45% yn y drydedd rownd.

Tabl 1: Ceisiadau Tir Gofal

| | Rownd 1 | Rownd 2 | Rownd 3 | Rownd 4 |
|---|---|---|---|---|
| Nifer o Geisiadau | 1381 | 860 | 1210 | 3451 |
| Ceisiadau Llwyddiannus | 700 | 653 | 1107 | 2460 |
| Cyfradd Llwyddiant | 51% | 76% | 92% | |

Cafodd nifer sylweddol o geisiadau a lwyddodd yn y rownd gyntaf eu tynnu'n ôl oherwydd gwallau yn yr wybodaeth a gyflwynodd y ffermwyr. Gwellodd y sefyllfa hon yn fawr ar ddechrau'r ail rownd. Fodd bynnag, llesteiriwyd y gwaith o brosesu ceisiadau o'r ail rownd yn sylweddol oherwydd clwy'r traed a'r genau, pan rwystrwyd ymweliadau'r swyddogion prosiect rhag ymweld am gyfnod o bum mis rhwng Chwefror ac Awst 2001.

Y nifer o geisiadau llwyddiannus a broseswyd gan CCGC ar ddiwedd Gorffennaf 2002 oedd 1435. Roedd cyfanswm o 853 o gytundebau a gwmpasai 83,910 hectar neu ryw 5% o ardal amaethyddol Cymru wedi cael eu harwyddo, 260 o gytundebau eraill yn cael eu paratoi a 322 o geisiadau wedi cael eu gwrthod neu eu tynnu'n ôl. Maint cyfartalog y cytundebau a arwyddwyd hyd yma yw 98 hectar gyda'r gost gyfartalog yn 10.1k y flwyddyn. Ar hyn o bryd, mae'r cynllun wedi ei gau i ymgeiswyr newydd, ond mae CCGC yn ymroddedig i brosesu'r gweddill o'r holl geisiadau llwyddiannus erbyn diwedd 2003.

Mewn ymateb i'r nifer o geisiadau a dderbyniwyd, ychwanegwyd £3 miliwn at gyllideb y cynllun yn 1999 ac wedyn ychwanegwyd £1.5 miliwn yn Chwefror 2002. O ganlyniad, mae cyfanswm y cyllid am 2002/2003 yn awr yn £13.4 miliwn, heb gyfrif unrhyw swm a gludwyd drosodd o'r flwyddyn ariannol flaenorol. Mae'r cyfanswm hwn o'r cyllid yn cynnwys hefyd gyfran ar gyfer costau gweinyddol ar ran CCGC. Pennwyd y costau hynny yn £2 miliwn, ond fe'u codwyd i £2.3 miliwn yn y flwyddyn ariannol 02/03 mewn ymateb i gynnydd yn y nifer o swyddogion prosiect o 25 i 39 ym mis Hydref 2002. Cafodd y 300k ychwanegol o gostau gweithredu eu talu o gyllid craidd CCGC.

Gorchmynnodd Llywodraeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru wneud 'arolwg stoc' o'r cynllun Tir Gofal yn ystod y cyfnod Chwefror – Mai 2001. Pwrpas hynny oedd penderfynu a ellid symleiddio'r cynllun heb leihau'r manteision amgylcheddol, ac ar yr un pryd wella'r effeithlonrwydd gweinyddol a'r modd y gweithredid y broses geisiadau. Ymgynghorwyd â phartneriaid y cynllun a chynrychiolwyr y diwydiant ynghylch y newidiadau arfaethedig.

O ganlyniad i'r arolwg stoc, gwnaed nifer o newidiadau i Gynllun Datblygiad Gwledig Cymru, gan gynnwys cyflwyno system sgorio newydd, ad-drefu nifer o argymhellion rheoli, a symleiddio dogfen y cynllun rheoli a ddosbarthwyd i ffermwyr. Disgwylir o hyd am gael cymeradwyaeth ffurfiol y Comisiwn Ewropeaidd i'r newidiadau hyn, ac ni ellir gweithredu'r

mwyafrif ohonynt nes bydd y bedwaredd rownd o geisiadau'n dechrau. Nid oes angen cymeradwyaeth y Comisiwn i wneud gwelliannau i systemau gweinyddol, ac mae'r rheini ar hyn o bryd yn cael eu gweithredu fel rhan o raglen dreiglol.

O ganlyniad i'r newidiadau a wnaed i'r Cynllun Datblygiad Gwledig, mae'n debygol y bydd y gyfran o ffermydd canolig eu maint sydd ymhlith yr ymgeiswyr llwyddiannus yn dal i godi yn ystod y bedwaredd rownd a'r rowndiau dilynnol. Ar yr un pryd bydd cost gyfartalog pob cytundeb yn dal i ostwng, yn rhannol oherwydd cyflwyno terfynau newydd ar y swm o waith cyfalaf y gellir ei gyllido ar ffermydd sydd o dan 50 hectar, ac yn rhannol oherwydd y bydd mwy o ffermydd yn ymuno â'r cynllun gyda sgôr o bwyntiau sy'n agos iawn at y lefel drothwy.

## 2. Effeithiolrwydd y Cynllun mewn Perthynas â'i Amcanion

Gellir barnu effeithiolrwydd unrhyw gynllun mewn perthynas â'r *allbynnau* (y nifer o gytundebau, a'r ardaloedd sy'n cael eu cwmpasu gan argymhellion ac ati) yn ogystal â'r *canlyniadau* amgylcheddol ar sail cydymffurfiad y ffermwyr â'r amrywiol argymhellion. Fel gweinyddwr y cynllun, nid yw CCGC yn uniongyrchol gyfrifol am fonitro'r canlyniad, er ein bod, yn rhinwedd ein sefyllfa fel ymgynghorwyr gwyddonol i Lywodraeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru, wedi rhoi cyngor ar ddulliau addas o weithredu. Yn gynharach eleni, dechreuodd ymgynghorwyr a weithiau i ARAD fonitro gwaelodlinau botanegol ar y 400 cyntaf o ffermydd i ymuno â'r cynllun, ond fe fydd yn rhai blynyddoedd cyn y bydd canlyniadau arolygon tebyg ar gael i'w cymharu.

I'r gwrthwyneb, mae'n llawer haws penderfynu ar effeithiolrwydd y cynllun drwy ystyried yr allbynnau. Mae amcanion y cynllun yn bedwar plyg, a gellir priodoli canlyniadau'r cynllun i bob un o'r canlynol:

(i) <u>Rheoli cynefinoedd o fywyd gwyllt sy'n bodoli eisoes gan adfer ac ail-greu</u>

Mae tua 84,000 hectar o dir amaethyddol yn rhan o'r cynllun, gyda 54,000 hectar ohono'n cynnwys cynefinoedd sy'n bodoli eisoes, fel y diffinnir yn llenyddiaeth y cynllun ac yng Nghynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DU. Felly, mae'r cynefinoedd hynny'n oddeutu 64% o gyfanswm maint y tir sydd dan gytundeb, gan gynnwys 5,200 hectar o goetir llydanddail a phrysgwydd, 12,000 hectar o rostir, 10,300 hectar o wlyptir, 23,400 hectar o laswelltir heb ei drin neu wedi ei drin yn rhannol a 1,500 hectar o dir arfordirol. Mae'r ffigurau hyn yn gyfartal â 7% o gyfanswm yr ardal o goetir llydanddail sydd yng Nghymru, ynghyd â 15% o'r rhostir sy'n weddill a 10% o wlyptiroedd.

Yn ychwanegol, mae 3731 hectar o laswelltir a gafodd ei drin ac o dir âr wedi cael eu cynnwys yn yr argymhellion a fwriedir ar gyfer gwella ansawdd y tir ar gyfer bywyd gwyllt. Mae'r mesurau perthnasol yn cynnwys dychwelyd at rostir, dychwelyd at laswelltir sy'n llawn o rywogaethau, defnyddio dulliau llai dwys o blannu ar dir âr, planu coetir newydd a sefydlu coridoriau glannau afonydd. Ynghyd â'r cynefinoedd sy'n bodoli eisoes, mae oddeutu 69% o dir dan gytundeb yn cael ei reoli'n benodol fel cynefinoedd bywyd gwyllt, er y dylid nodi bod y ffigur hwn yn celu amrywiadau sylweddol rhwng ffermydd mewn gwahanol rannau o Gymru.

Mae oddeutu 2% o dir dan gytundeb yn gorwedd oddi mewn i ffiniau SoDdGA hysbysedig, sy'n dangos bod y cynllun, ar wahân i'r rôl sydd ganddo wrth reoli ardaloedd felly, yn un sydd hefyd o werth sylweddol ar gyfer diogelu ac adfer nodweddion bywyd gwyllt o fewn yr 'ardaloedd ehangach o gefn gwlad' sy'n amgylchynu safleoedd statudol.

(ii) Diogelu tirweddau gwledig a rheoli nodweddion o bwys

Un o ofynion sylfaenol y cynllun yw bod yr holl dir yn cael ei reoli yn unol â thelerau'r argymhellion a osodwyd yn yr "Adran Fferm Gyfan". Mae hyn yn gofyn am gynnal holl linellau terfyn traddodiadol y caeau rhag i stoc dorri drwyddynt, yn ogystal â rhwystro rhag clirio unrhyw gloddiau traddodiadol sydd ar y tir, gan gynnwys waliau cerrig sychion, gwrychgloddiau a chloddiau pridd. Mae'r gofynion ychwanegol yn cynnwys cynnal coed y gwrychgloddiau ac adeiladau fferm traddodiadol yn ogystal â chlirio unrhyw sbwriel annymunol oddi ar y fferm. Mae oddeutu 84,000 hectar yn cael eu diogelu o dan y rhan yma o'r cynllun, ac mae 1007 cilomedr ychwanegol o gloddiau terfyn traddodiadol a 551 o adeiladau ffermydd wedi cael eu clustnodi'n benodol ar gyfer gwaith i'w hadfer dros y 5 mlynedd nesaf. Bydd llawer o'r gwaith hwn o fudd hefyd naill ai i fywyd gwyllt neu nodweddion hanesyddol.

(iii) Diogelu a chadw nodweddion hanesyddol

Mae arwyddocâd hanesyddol neilltuol i lawer o gloddiau terfyn caeau – fel y mae i adeiladau traddodiadol ffermydd. Mae allbynnau penodol mewn perthynas ag amgylchedd hanesyddol yn cynnwys 1400 hectar o barcdir sy'n cael ei reoli'n draddodiadol, yn ogystal â 1355 o adeiladau traddodiadol, 99 o Gofebau Hynafol Rhestredig (SAM) a 2160 o nodweddion hanesyddol eraill a warchodir o dan yr Adran Fferm Gyfan. Mae gwaith ychwanegol yn cael ei wneud ar hyn o bryd i sefydlu pa gyfraniad y mae'r cynllun wedi ei wneud at warchod yr ardaloedd a enwir yn y *Gofrestr Tirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol yng Nghymru.*

(iv) Darparu mynediad cyhoeddus i gefn gwlad

Un o ofynion yr Adran Fferm Gyfan yw bod pob Llwybrau Cyhoeddus yn cael eu cynnal mewn cyflwr dirwystr a bod mynediad cyhoeddus yn cael ei ddarparu i bob cwr o weundir, rhostir a glaswelltir sydd heb eu cau. Ni roir tâl am unrhyw un o'r gofynion hynny. Erbyn diwedd Gorffennaf 2002, roedd hyd y Llwybrau Cyhoeddus yn 994 cilomedr, ac roedd maint y tir mynediad a oedd heb ei gau ychydig dros 19,000 hectar. Yn ychwanegol, roedd cyfanswm o 216 cilomedr o lwybrau mynediad newydd a 1800 hectar o lecynnau mynediad newydd wedi cael eu creu ar dir caeëdig, tra bod 122 o ffermwyr wedi cytuno i ddarparu cyfleusterau mynediad addysgol i grwpiau ddod i ymweld.

## 3. Argymhellion ar gyfer Ffurf Cynlluniau Amaeth-amgylcheddol yng Nghymru yn y Dyfodol

Mae rhaglen bresennol amaeth-amgylcheddol Cymru'n cynnwys Tir Gofal a Chynllun Ffermio Organig. Fel rhan o unrhyw raglen yn y dyfodol, cred CCGC y dylid ehangu amrediad presennol amcanion y cynllun i gynnwys yr holl agweddau a ganlyn:

- Gwarchod a rheoli bioamrywiaeth (yn cynnwys cynefinoedd bywyd gwyllt, rhywogaethau o fywyd gwyllt ac amrywiol gnydau traddodiadol a bridiau o dda byw sy'n nodweddiadol o gefn gwlad Cymru)
- Gwarchod, rheoli ac adfer nodweddion traddodiadol y tirwedd, gan gynnwys patrymau cymysg o amaethu
- Gwarchod, rheoli ac adfer y nodweddion hanesyddol
- Cynnal a gwella mynediad cyhoeddus i gefn gwlad

- Cynnal a gwella ansawdd pridd, aer, a dŵr

- Darparu swyddi yng nghefn gwlad a datblygu sgiliau o fewn y gweithlu

Bydd cynnwys rhywogaethau o fewn yr amcan cyntaf yn helpu i ddarparu ar gyfer anghenion adar tir amaethyddol, lawer ohonynt yn dibynnu ar rwydweithiau o dir âr a gaiff eu rheoli'n addas ac ar nodweddion eraill megis gwlyptir a phrysgwydd, yn hytrach nag ar un cynefin penodol. Yn yr un modd, bydd cynnwys patrymau cymysg o amaethu o fudd i adar megis y cornicyll yn ogystal â rhywogaethau eraill megis britheg y gors sy'n dibynnu ar fannau lle bydd gwartheg neu ferlod yn pori. Credwn ni fod y ddau amcan yma yn gydnaws â *Ffermio yn y Dyfodol/Farming for the Future* (Pwynt Gweithredu 47).

Mae cydnabod bod bioamrywiaeth yn cynnwys amrywiaeth o gnydau a da byw yn ogystal â rhywogaethau o fywyd gwyllt, yn cwrdd ag un o ddaliadau sylfaenol y Gynhadledd Fioamrywiaeth yn Rio. Adlewyrchir hyn, yn ei dro, yn Rheoliad Datblygu Cefn Gwlad y CE, yn ogystal ag mewn nifer o gynlluniau sy'n cyfrannu at falchder bro a gwell mwynhad i ymwelwyr a ddaw i unrhyw le. Mae llawer o fridiau traddodiadol yn fwy addas hefyd ar gyfer pori porfeydd na chafod eu trin, ac mae hynny'n cyfrannu ymhellach tuag at gyrraedd amcanion rheoli cynefinoedd.

Bydd cynnwys amcan newydd ynghylch pridd, aer a dŵr yn helpu i sicrhau bod cynlluniau amgylcheddol wedi eu seilio'n gadarn ar gynnal yr adnoddau sylfaenol sy'n hanfodol ar gyfer cwblhau gweddill y rhaglen. Mae'r amcan terfynol yn adlewyrchu rôl y gweithlu lleol tuag at helpu i weithredu argymhellion y cynllun i'r safon angenrheidiol.

Caiff y fframwaith syd orau ym marn CCGC ar gyfer gweithredu'r rhaglen amaeth-amgylcheddol yng Nghymru ei dangos yn y ffordd orau drwy ddefnyddio model pyramid (gweler Atodiad 2). Yn ei hanfod, mae system lle mae'r mwyafrif o ffermwyr yn medru cael tâl amaeth-amgylcheddol gweddol fach yn fuan ac yn hawdd yn helpu i greu mwy o frwdfrydedd ac yn helpu i gael mwy i gyfrannu ar lefelau uwch yn y pyramid.

Mae elfennau allweddol y system byramid a awgrymir yn cynnwys:

- Set o safonau rheolyddol y mae'n ofynnol i bob ffermwr gadw atynt, pa un bynnag a ydynt yn cael taliadau hwylustod o dan y CAP ai peidio.

- Croes-gydsyniad ar bob tâl CAP a fwriedir ar gyfer sicrhau nad yw ffermwyr sy'n cael y taliadau hynny yn creu difrod amgylcheddol (er enghraifft, y rheoliadau gorbori sy'n cael eu cymhwyso i Gynlluniau Gweithredu Gwarchod Rhywogaethau (*SAPs)* ar hyn o bryd).

- Tâl blynyddol sylfaenol am bob hectar (Tir Gofal 1A) am reoli adnoddau yn sylfaenol, gan gynnwys diogelu aer, pridd, dŵr, cynefinoedd bywyd gwyllt a nodweddion amgylcheddol eraill a werthfawrogir gan y cyhoedd. Byddid yn disgwyl i ffermwyr baratoi eu cynlluniau rheoli adnoddau eu hunain drwy ddefnyddio canllaw hunangymorth neu becyn hyfforddiant a byddai'r taliadau'n dibynnu ar eu cydymffurfiad â llawer o Adran Fferm Gyfan Tir Gofal fel y mae ar hyn o bryd, yn ogystal â chynnal yr holl gynefinoedd sy'n bodoli eisoes fel y diffinnir yn Rheoliadau EIA. (Byddai disgwyl i ffermwyr sydd ag ychydig o gynefinoedd sicrhau bod o leiaf 5% o'r tir yn cael ei reoli mewn modd sydd heb fod yn ddwys, megis cadw ymylon caeau heb eu chwistrellu, peidio â phlannu dim ar dalarau, coridoriau glannau afonydd neu goetir sydd newydd ei blannu.)

- Gellir darparu taliadau ychwanegol o dan y system sylfaenol os yw fferm yn cynnwys cymysgedd o agweddau megis gwartheg, defaid, neu dir âr. Byddai'r dull hwn yn cyfateb i'r newidiadau a argymhellir yn system sgorio Tir Gofal ar ôl yr arolwg stoc diweddar.

- Gellir rhoi cainc arall o'r system sylfaenol (Tir Gofal 1B) i ffermwyr organig i sicrhau y gellir cyfuno'r system sylfaenol gydag OFS. Mae CCGC yn cefnogi hefyd y defnydd o stiwardiaeth neu dâl parhaus i ffermwyr organig pan fydd y taliadau am droi'n organig wedi dod i ben. Cyfiawnheir y taliadau hynny yn nhermau'r manteision amgylcheddol eang a roir gan amaethu organig sydd, fel arall, heb gael eu cydnabod yn ariannol gan y farchnad. (*Gweler Cais CCGC i Adolygiad Amaethu Organig Pwyllgor ARD, 31 Mai 2002.*) Byddai mynediad i'r ffrwd organig (TG 1B) yn bosibl drwy broses gais ar wahân, fel na fyddai disgwyl i ffermwyr organig – y rhai sy'n newid am y tro cyntaf a'r rhai sydd eisoes yn gymwys i dderbyn y taliadau – fynd i TG1A.

- Byddai taliadau blynyddol ychwanegol yn cael eu rhoi am bob hectar (Tir Gofal 2) am welliannau penodol a wneid yn y ffordd o reoli cynefinoedd bywyd gwyllt a rhywogaethau, cadwraeth cnydau a da byw traddodiadol, rheoli tirwedd, darparu mynediad cyhoeddus newydd neu weithredu mesurau i reoli llygredd. Byddai'r rhan hon o'r pyramid yn cynnwys rhan sylweddol o gynllun cyfredol Tir Gofal.

- Byddai mynediad i TG2 yn agored i gyfranogwyr o TG1A a TG1B fel ei gilydd – gyda'r rhai olaf yn dal i dderbyn taliadau am droi'n organig neu am eu rheolaeth barhaus, yn ôl yr hyn sy'n briodol.

- Ar gopa'r pyramid byddai grwpiau o ffermydd sy'n uned weithredol amgylcheddol neu gymdeithasol-economaidd (Tir Gofal 3). Y maen prawf ar gyfer cymorth fyddai bod y cynigion rheoli'n medru cyflawni manteision mwy na'r rhai y gellid eu cyflawni ar fferm sengl. Gallai'r mathau nodweddiadol o grwpiau gynnwys cymdeithasau rheoli tir comin neu ffermydd o fewn un dalgylch lle roedd angen datblygu mesurau cynhwysfawr i reoli llygredd gwasgarog. Gellid targedu'r mesurau hynny hefyd at flaenoriaethau rheoli rhywogaethau allweddol lle roedd angen 'dull tirlun-seiliedig', megis y cornicyll neu'r glöyn byw brithell y gors. Byddai angen i swyddogion prosiect fod â sgiliau neilltuol i hwyluso hynny, ac fe allai hefyd fod angen gosod targedau penodol yn ogystal â dod o hyd i ffrwd o gyllid ar wahân ar gyfer gwaith o'r fath.

- Gobeithir y bydd rhaglen waith gyfalaf ar gael ar bob lefel o'r pyramid ond byddai'r terfynau ar waith o'r fath yn gymharol fychan ar y lefelau isaf, a byddai hynny'n rhoi cymhelliad cyson i ffermwyr ymgymryd â'r haenau uwch.

Byddai dull o'r fath yn sicrhau bod canran sylweddol o ffermwyr yn gweithredu ar safon amgylcheddol gymharol uchel yn y dyfodol agos iawn ar draws y rhan fwyaf o dir amaeth Cymru, a gellid ar yr un pryd sefydlu rheolaeth fwy targedol a roddai sylw i anghenion amgylcheddol penodol ar ben y system sylfaenol hon. Gyda'r dull hwn, mae'n hanfodol sicrhau bod y cynllun sylfaenol neu'r 'cynllun eang a bas' hwn (CEB) yn ddigon ymestynnol i wneud gwelliannau gwirioneddol yn ansawdd yr amgylchedd, yn gyfnewid am yr adnoddau a roed ynddo. (Bydd CCGC yn falch o roi manylion pellach am 'fodel' CEB os bydd y pwyllgor yn gofyn iddynt.)

Wrth gwrs, mae angen pwyso a mesur y buddiannau posibl a fyddai'n deillio o gynllun eang a bas yn erbyn y rhai a fyddai'n deillio o gynnydd sylweddol yng nghyllid Tir Gofal. Y blaenaf ymhlith manteision y CEB yw'r cyfle i gyflwyno cysyniadau rheoli adnoddau yn

sylfaenol, diogelu'r nodweddion amgylcheddol presennol a chreu nifer gyfyngedig o gynefinoedd newydd – dros, efallai, gymaint â 70% o dir amaeth Cymru o fewn cyfnod bychan iawn o amser. I'r gwrthwyneb, mae'r cynlluniau amaeth-amgylcheddol ar hyn o bryd yn cwmpasu oddeutu 23%, gyda rhagolwg am dwf o dua 2.5% y flwyddyn. Yr hyn sy'n llawn mor arwyddocaol, efallai, yw'r cyfle i gynorthwyo nifer fwy o lawer o ffermwyr i ddechrau'r cam cyntaf o'r rhaglen amaeth-amgylcheddol a chreu ymdeimlad gwirioneddol bod y ddarpariaeth o wasanaethau amgylcheddol yn weithgaredd prif ffrwd ochr yn ochr â chynhyrchu amaethyddol. Yn olaf, gallai'r cyfle i ddefnyddio CEG fel modd o annog mwy o hunanymwybyddiaeth o ran rheoli adnoddau yn sylfaenol helpu i ddatblygu amrywiol fodelau gwahanol ar gyfer gweithredu gofynion amgylcheddol o dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr sydd ar fin dod.

Ystyria CCGC y gellir gweithredu'r system newydd arfaethedig o gymorth amaeth-amgylcheddol gan nifer o gyrff sy'n gweithio mewn partneriaeth, rywbeth yn debyg i'r modd y mae Tir Gofal a'r OFS yn gweithredu ar hyn o bryd (er enghraifft, mae rhyw 8% o gytundebau Tir gofal yn cael eu cwmpasu gan yr OFS). Yn arbennig, credwn y byddai'n syniad synhwyrol i ARAD weithredu'r CEG (Tir Gofal 1A ac 1B) gan y gellir gwneud llawer o'r gwaith monitro drwy ddefnyddio system IACS ddiwygiedig, ynghyd â ffotograffau o'r awyr a dull integredig o ddefnyddio'r staff maes presennol. Fel rhan o'r fframwaith cyfan, cred CCGC ei fod mewn safle da i weithredu Tir Gofal 2 a 3, er y byddai gweld y staff sydd â'r sgiliau addas yn cael eu secondio o amryw o gyrff yn gymorth neilltuol i gryfhau'r elfen olaf o'r rhaglen drwy hyrwyddo atebion sy'n gynyddol integredig.

**Cyllido'r system arfaethedig**

Mae'r cyhoeddiad diweddar am gynigion y Comisiwn ar gyfer adolygiad canol tymor o'r CAP yn cynnwys nifer o gynigion ar gyfer cryfhau'r hyn a elwir yn ail golofn y mae'r holl raglenni amaeth-amgylcheddol yn cael eu gweithredu oddi tani. Y pwysicaf o'r cynigion hyn yw'r cysyniad o 'drawsgyweiriad deinamig' lle byddai 3% o'r taliadau uniongyrchol sydd ar hyn o bryd dan golofn 1 yn cael eu dychwelyd i'r Comisiwn yn 2004, ynghyd â 3% arall o'r hawl gwreiddiol ym mhob blwyddyn ar ôl hynny, gan godi i'r mwyafswm o 20% ymhen 7 mlynedd.

Bydd pob fferm yn rhydd o drawsgyweiriad ar y 5000 ewro cyntaf a bydd yna lwfans ychwanegol o 3000 o ewros am bob uned lafur lawn amser ar ôl y dyraniad sylfaenol o 2 weithiwr llawn amser. Yn ychwanegol, fe fydd yna uchafswm cyfyngol ar daliadau uniongyrchol o 300,000 o ewros i bob fferm, gydag unrhyw arbedion yn cael eu cadw gan yr aelod-wladwriaeth i'w defnyddio ar fesurau RDR. (Deallwn fod 60% o ffermydd yn derbyn llai na 5000 o ewros y flwyddyn, tra bod y nifer sy'n derbyn tros 300,000 mewn ffigurau sengl.)

O dan y model arfaethedig, bydd cyllid trawsgyweiriedig yn cael ei ailneilltuo gan y Comisiwn ar sail tri maen prawf amcan, sef maint yr ardal amaethyddol, cyflogaeth amaethyddol a rhyw fath o fesur o ffyniant megis CMC/GDP.

Cred CCGC y gallai'r dull hwn fod â chryn fantais yn nhermau symud cyfran gynyddol o wariant CAP i'r ail golofn. Byddai hyn yn unol â'r dymuniad i *'sefydlu cydbwysedd mwy cyfartal rhwng cymorthdaliadau cynhyrchu CAP a mesurau datblygiad cefn gwlad'* fel y nodwyd yn *Ffermio yn y Dyfodol/Farming for the Future* (Pwynt Gweithredu 2).

Mae cyfran y DU o gyllid presennol datblygu cefn gwlad yn 3%, er gwaethaf y ffaith bod maint tir amaethyddol y DU dros 12% o gyfanswm y tir amaethyddol sydd o fewn y Gymuned. O ganlyniad, cred CCGC mai'r flaenoriaeth gyntaf yw defnyddio cyrchddull mwy

gwrthrychol tuag at y dosraniad o gyllid datblygu cefn gwlad fel y saif ar hyn o bryd, o fewn y Gymuned Ewropeaidd ac o fewn y DU ei hun. Yn y tymor canolig a hwy, fodd bynnag, mae'n amlwg fod yna nifer o gwestiynau sydd heb eu hateb o hyd mewn perthynas â'r integreiddio i gynigion y Comisiwn o ran y dull presennol sydd gan y DU ar gyfer trawsgyweiriad a chyllid cyfatebol ar gyfer mesurau datblygu cefn gwlad (ynghyd ag unrhyw newidiadau a allai ddod mewn perthynas â'r setliad diweddar dan yr Arolwg Gwariant Cynhwysfawr).

Gan na cheir unrhyw fesurau sy'n adlewyrchu natur amlswyddogaethol amaethyddiaeth Ewrop (yr hyn sydd yn y bôn yn sail dros i'r Comisiwn gyfiawnhau ei safiad cyffredinol ar y defnydd o gymhorthdal), mae'n bosibl y bydd y meini prawf dosrannu presennol yn cael eu gwrthwynebu yn ystod y trafodaethau WTO a ddaw cyn bo hir. Ystyria CCGC y gallai fod modd cryfhau'r meini prawf arfaethedig, efallai drwy roi'r pwys mwyaf i faint tiroedd amaethyddol, yn arbennig lle bydd cyfran sylweddol o'r tir amaethyddol mewn gwlad arbennig wedi cael ei henwi fel ymgeisydd am safle Natura 2000 neu Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig.

**Cyngor Cefn Gwlad Cymru**
**Medi 2002**

**ATODIAD 1: ALLBYNNAU TIR GOFAL AR GYFER Y CYTUNDEBAU A ARWYDDWYD HYD AT 31 GORFFENNAF 2002**

A. Rheolaeth Orfodol ar Gynefinoedd

| | | |
|---|---|---|
| 1. | Coetir Llydanddail Lled Naturiol | 4,725 hectar |
| 2. | Prysgwydd | 470 hectar |
| 3. | Perllannau | 52 hectar |
| 3a. | Parcdir | 1,400 hectar |
| 4. | Rhostir Mynydd-dir Uchel | 305 hectar |
| 5. | Rhostir Ucheldiro | 11,113 hectar |
| 6. | Rhostir Iseldirol | 643 hectar |
| 7. | Glaswelltir Asidaidd heb ei Drin | 13,365 hectar |
| 8. | Glaswelltir Niwtral heb ei Drin | 575 hectar |
| 9. | Glaswelltir Calchfaen heb ei Drin | 61 hectar |
| 10. | Glaswelltir wedi ei led Drin | 9,400 hectar |
| 11. | Glaswelltir Corsiog | 4,104 hectar |
| 12. | Cors | 3,526 hectar |
| 13. | Corsle, Siglen, a Ffen | 2,691 hectar |
| 14. | Cors Bori Arfordirol a Gorlifdir | 1,128 hectar |
| 15. | Cors Heli | 237 hectar |
| 16. | Clogwyn a Llethr Arfordirol | 163 hectar |
| 17. | Twyni Tywod | 15 hectar |

B. Ymrwymiadau Eraill

| | | |
|---|---|---|
| 18. | Rheoli Gwrychgloddiau | 886,694m* |
| 19. | Waliau Cerrig/llechi ffensys/cloddiau pridd | 186,353m* |
| 24–30. | Opsiynau tir âr yn cynnwys ydau heb eu chwistrellu, gwreiddlysiau heb eu chwistrellu, sofl gaeaf a chadw glannau/ymylon yn fraenar | 2,879 hectar |

| | | |
|---|---|---|
| 33. | Ymylon rhagod i ddyfrffosydd | 300 hectar |
| 34. | Glaswelltir a gafodd ei Drin sy'n cael ei reoli ar gyfer Adar Bridio | 323 hectar |
| 37. | Sefydlu Coetir Llydanddail Newydd | 413 hectar |
| 38. | Coridoriau gwag ar Lannau Afonydd | 109 hectar |
| 40. | Sefydlu Llystyfiant Rhostirol ar Dir Asidaidd | 4,113 hectar** |
| 42. | Sefydlu Cors Heli Newydd | 7 hectar |
| 44A-C. | Llwybrau Mynediad Newydd | 216 cilomedr |
| 44D. | Mynediad i Ardal newydd ar Dir Caeëdig | 1,807 hectar |
| 44 E. | Mynediad Addysgol | 122 o ffermydd |
| 76. | Adeiladau Fferm Traddodiadol sy'n cael eu hadfer | 551* |

C. Data Fferm Gyfan

| | |
|---|---|
| Cyfanswm y nifer o gytundebau | 853 |
| Cyfanswm tir ffermydd sydd dan gytundeb | 83,910 hectar |
| Llwybrau Cyhoeddus sy'n cael eu cynnal a'u cadw | 994 cilomedr |
| Ardaloedd Mynediad Agored (hawl mynediad gorfodol i weundir, rhostir a glaswelltir sydd heb eu cau o dan yr adran fferm gyfan) | 19,126 hectar |
| Nifer o adeiladau traddodiadol | 1,355 |
| Nifer o Gofebau Hynafol Rhestredig (SAM) | 99 |
| Nifer o nodweddion hanesyddol anhrestredig | 2,160 |
| Nifer o gytundebau sydd hefyd yn y Cynllun Ffermio Organig | 73 |

* *cyfanswm y gwaith cytunedig dros holl gyfnod y cynlluniau*

** *mae'r ardal eisoes wedi ei chofnodi o dan gynefin orfodol yn adran A*

ANNEX 2: A 'PYRAMID MODEL' PROPOSAL FOR THE WELSH AGRI-ENVIRONMENT PROGRAMME

| Annual Payments per ha per annum: | | Details | Delivered by |
|---|---|---|---|
| Level 3 | Group Application | Landscape-scale environmental benefits<br>Access from Levels 1A, 1B & 2 | CCW<br>or NAW |
| Level 2 | Biodiversity<br>Landscape & Archaeology<br>New Public Access Opportunities | Targeted improvements for biodiversity, landscape, public access & management of pollution, and socio-economic benefits<br>Access from Level 1A or 1B | CCW |
| Level 1B | Organic conversion followed by Stewardship | Organic sustainable management<br>Open to all Farmers in Wales | NAW |
| Level 1A | Broad & Shallow Scheme (BSS) | Sustainable land management<br>Open to all farmers in Wales | NAW |
| | ↑ Access to AE Payment ↑ | | |
| | Cross compliance on all CAP direct payments<br>Good Farming Practice (Wales RDP) | Basic resource protection | NAW |
| | Access to Pillar1 supports | | |
| | Regulatory minimum – all land managed must comply with statutory requirements | | Various Regulatory authorities |

Footnote: Note that capital work payments (one-off payments for specific activity) can attach to each level from 1A – 3.